Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Cefnogi gwelliannau i'n proses Addasrwydd i Ymarfer

Ymgynghoriad ar newidiadau i'n rheolau

3 Tachwedd 2025

Cynnwys

3 Am yr NMC

4 Crynodeb gweithredol

7 Am yr ymgynghoriad hwn

9 Cyd-destun

10 Pwerau i benodi cadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol

12 Cynyddu effeithlonrwydd ac effeithioldeb dyfarniadau trwy bwerau rheoli achosion wedi eu cryfhau

15 Newidiadau i ofynion hysbysiad: hyblygrwydd ar gyfer rhannu deunydd, gwahodd sylwadau a rhoi rhybudd o gyfarfodydd a gwrandawiadau

23 Cefnogi tystion bregus i ddarparu tystiolaeth

25 Adolygu drafftio diwygiadau'r rheolau

26 Datblygu arweiniad i gefnogi'r newidiadau rydym yn eu gwneud

27 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

29 Y Gymraeg

30 Sut i ymateb

31 Rhestr termau

33 Ôl-nodiadau

Am yr NMC

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol o fwy na 853,000 o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae 1 allan o 50 o bobl o oedran gweithio yn y DU ar ein cofrestr. Rydym yn gyfrifol am ddiogelu'r cyhoedd trwy gofrestru ac addysgu ein gweithwyr proffesiynol, gosod a chynnal safonau gan gynnwys y Cod, ac archwilio a gweithredu ar bryderon.

Rydym yn adeiladu NMC newydd – un sy'n ysbrydoli ymddiriedolaeth a hyder. Bydd y cyhoedd rydym yn gwasanaethu, y proffesiynau rydym y neu rheoleiddio, a'r cyrff rydym yn gweithio â nhw angen i ni fod yn rheoleiddiwr cryf ac annibynnol.

Crynodeb gweithredol

Rydym yn adeiladu NMC newydd – rheoleiddiwr sy'n gryf ac annibynnol mae pawb eisiau ei weld.

Fel rhan o hyn, rydym wedi ymrwymo i wella'r amseroldeb a phrofiad o bawb sydd wedi eu cynnwys yn Addasrwydd i Ymarfer.

Proses mwy amserol, teg a thosturiol

Ers i ni lansio ein rhaglen wella ar gyfer Addasrwydd i Ymarfer yn 2024, rydym wedi gwneud cynnydd cyson ac ystyrlon, yn arbennig mewn sgrinio ac yn nyfarniadau gan gynnwys sut rydym yn rhedeg ein gwrandawiadau.

Rydym yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod mwy o bobl yn derbyn penderfyniad yn eu hachos cyn gynted â phosibl.

Rydym wedi cyflawni cynnydd yn y cyfartaledd treigl o achosion yn cael eu datrys oddi mewn i'n targed o 15 mis – o fyny o 60.8% ym mis Gorffennaf 2023 i 71.6% ym mis Awst 2025.

Rydym wedi cryfhau diogelu, ac wedi mewnblannu tegwch a chynhwysiant pellach trwy gydol ein prosesau. Rydym wedi cyflwyno cefnogaeth well i bobl broffesiynol â chyflyrau iechyd fel dementia.

Wedi ein llywio gan ein targedau EDI uchelgeisiol, byddwn yn mynd bellach i fewnblannu tegwch i bawb yn ein prosesau rheoleiddio ac yn yr NMC, ni waeth cefndir neu nodweddion pobl.

Fodd bynnag, rydym o hyd yn wynebu heriau.

Heriau parhaus

Rydym yn derbyn nifer cynyddol o atgyfeiriadau Addasrwydd i Ymarfer misol. Ym mis Ebrill 2024, roedd cyfartaledd treigl yr atgyfeiriadau yn 499 y mis. Mae'r ffigur hwn wedi codi i gyfartaledd o 574 y mis – cynnydd o 15%. Mae cymhlethdod Addasrwydd i Ymarfer hefyd yn ei gwneud yn broses ddrud iawn.

Mae ein gallu i weddnewid Addasrwydd i Ymarfer wedi ei wneud yn anodd yn rhannol oherwydd ein cyfreithiau sydd wedi dyddio ac mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithio gyda ni o 2026 er mwyn moderneiddio ein cyfreithiau. Cyn y diwygio cyflawn hwnnw, bydd y newidiadau hyn, pe'u gweithredir, yn ein helpu i wella Addasrwydd i Ymarfer fel ei fod yn fwy amserol, teg a thosturiol.

Tra byddwn yn disgwyl am foderneiddio, mae gennym gynllun gwella Addasrwydd i Ymarfer i yrru perfformiad gwell oddi mewn i'n fframwaith cyfreithiol presennol.

Buddsoddi mewn gwelliannau

Mae ein holl flaenoriaethau – gan gynnwys gwelliannau i Addasrwydd i Ymarfer, ein hymrwymiadau eraill i foderneiddio'r Cod, yn sicrhau ansawdd rhaglenni addysgiadol ar draws y DU ac i adeiladu diwylliant gwrth-hiliaeth – angen cryn fuddsoddiant.

Dyma pam rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion i gynyddu'r ffioedd cofrestru ac ym mis Hydref 2025, cyhoeddom ostyngiad arfaethedig yn nifer y staff (10%) ac rydym yn gwneud arbedion pellach mewn costau nad ydynt yn gostau staff o £3.1m y flwyddyn.

Mae'r ffioedd cofrestru a delir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn rhoi cyfrif am tua 97% o'n hincwm. Nid ydym wedi codi ein ffioedd am 10 mlynedd gan ein bod yn ystyriol o bwysau costau byw.

Fodd bynnag, mae'r rhewi dros ddegawd o hyd hwn wedi arwain at ostyngiad mewn termau real o 28% yn ein hincwm, o'i gymharu â lle y byddai wedi bod pe byddai ein ffioedd wedi cadw i fyny â chwyddiant – sy'n cyfateb i tua £180m o incwm wedi ei golli hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

O ganlyniad i rewi ein ffioedd, wrth fuddsoddi mewn gwelliannau rheoleiddiol, ac ymateb i'r galw cynyddol, mae'r NMC wedi dechrau gorfod defnyddio ei gronfeydd er mwyn ariannu gweithgareddau ddydd-i-ddydd am y tair blynedd ariannol ddiwethaf – gan gynnwys eleni – sy'n golygu nad yw rhewi'r ffi bellach yn gynaliadwy.

Adeiladu NMC newydd

Gyda'n gilydd, mae'r camau rydym yn eu cymryd i wella Addasrwydd i Ymarfer a sefydlogi ein cyllid yn rhan o siwrnai o weddnewid ehangach rydym yn ei hymgymryd – i wneud yn siŵr ein bod yn rheoleiddiwr effeithiol sy'n diogelu'r cyhoedd ac yn cynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth.

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan y newidiadau arfaethedig rydym eisiau eu gwneud i'n rheolau.[1] Addasrwydd i Ymarfer. Gellir dod o hyd i'r rheolau ffioedd cofrestru ar ein gwefan.

Ein cynigion

Byddai'r newidiadau hyn yn golygu gallwn:

- **Penodi cadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol** i'r Paneli Pwyllor Ymarfer
- **Cryfhau ein pwerau rheoli achosion**, fel y gallwn roi cyfarwyddiadau eglur a phenodol ar sut dylai pawb sy'n rhan o achos baratoi er mwyn galluogi'r Pwyllgor Ymarfer ddod i benderfyniad
- **Rhannu gwybodaeth trwy lwyfan ddigidol neu gyfrif ar-lein**, lle mae'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn cytuno
- **Creu hyblygrwydd yn ein proses**, ar gyfer pryd rydym yn gwahodd sylwadau a'r graddfeydd amser am y rhain, a faint o rybudd rydym yn ei roi o gyfarfodydd a gwrandawiadau
- **Darparu gwell cefnogaeth i dystion bregus**, gan alluogi mwy o bobl i roi eu tystiolaeth mor effeithiol â phosibl.

Byddai'r newidiadau yn ein helpu i:

- Leihau oedran ein llwyth achosion
- Tynnu oedi yn y broses nad oedd mo'u hangen
- Rhyddhau capasiti yn ein swyddogaeth ddyfarnu
- Gwella effeithlonrwydd gwrandawiadau
- Canolbwyntio mwy ar y person trwy adnabod anghenion pobl a'u rhoi yng nghanol beth all fod yn broses ofidus.

Pe baem yn gwneud y newidiadau hyn, byddem yn sicrhau ein bod yn monitro'r manteision y maent yn eu cynnig i brofiad pawb sy'n rhan o'n proses Addasrwydd i Ymarfer.

Mae'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn rhoi dyletswyddau a phwerau arnom fel rheoleiddiwr ac yn cadarnhau mai ein prif nod yw diogelu'r cyhoedd. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu ein Cyngor â'r pŵer i wneud rheolau am sut rydym yn gweithredu ac yn cyflenwi ein proses o Addasrwydd i Ymarfer. Unwaith maent wedi eu gwneud gan ein Cyngor mae rhaid i unrhyw reolau gael eu cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor a'u gosod a'u cyflwyno yn Senedd y DU cyn iddynt ddod i rym.

Am yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynigion polisi. Gellir dod o hyd i'r Gorchymyn Diwygio rheolau drafft ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar wefan yr NMC. Rydym hefyd wedi creu dogfen ar wahân, o'r enw amserlen Keeling, sy'n dangos sut olwg fydd ar y rheolau yr effeithir arnynt os gwneir y diwygiadau.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ddeall effaith ein cynlluniau, gan gynnwys ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chyfreithiau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

Dweud eich dweud

Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor am 12 wythnos o 3 Tachwedd 2025 i 26 Ionawr 2026.

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol â gofynion erthygl 47 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion byddwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r newidiadau arfaethedig i'r rheolau i'n Cyngor yng ngwanwyn 2026. Os yw'r Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion bydd yn gwneud diwygiadau i'r rheolau, cyn y gymeradwyaeth derfynol gan y Cyfrin Gyngor.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ynghyd ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Mae'r arolwg yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau. Gallwch ymateb drwy'r ddolen hon.

Mae cymryd rhan yn yr arolwg ymgynghorol yn ddewisol. Gallwch hepgor unrhyw adran o'r ymgynghoriad nad yw'n berthnasol i chi. Yr eithriad yw'r cwestiynau 'Amdanoch chi' lle rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall a ydym wedi clywed gan ystod amrywiol ac eang o bobl. Oddi mewn i'r adran hon gallwch ddewis 'Mae'n well gen i beidio â dweud ar gyfer unrhyw wybodaeth nad ydych yn dymuno ei rhannu. Byddwn yn dadansoddi ymatebion ar ran sefydliadau ar wahân i wybodaeth gan unigolion, felly mae'n bwysig rydym yn gwybod ym mha gapasiti rydych yn ateb.

Os ydych yn ymateb fel unigolyn ni fyddwn yn gofyn am eich enw, sy'n golygu ni fyddwch yn gallu newid eich atebion ar ôl i chi eu cyflwyno. Hefyd, ni fyddwn yn gallu darparu cofnod o'ch atebion.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad byddwn yn gofyn am eich enw ac enw'r sefydliad. Mae rhaid i chi roi enw'ch sefydliad ond mae gennych y dewis i barhau'n ddienw os dymunwch.

Caiff yr holl ddata a rennir (ac eithrio enw'r sefydliad) ei gyfanredu a'i wneud yn ddienw (mae hyn yn golygu tynnu unrhyw beth a allai eich adnabod neu rywun arall y sonnir amdano yn y data.)

Caiff eich data personol ei gasglu a'i storio yn unol â'n polisi preifatrwydd.

Os na allwch gyflwyno'ch ymateb trwy ddefnyddio'r arolwg ar-lein, cysylltwch â ni yn consultations@nmc-uk.org am fformat gwahanol. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Cyd-destun

Rydym wedi bod yn gofyn ers tro am i'n fframwaith cyfreithiol gael ei foderneiddio. Rydym yn falch fod llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n ddiweddar i ailosod a diwygio ein deddfwriaeth cyn diwedd tymor y senedd bresennol.

Fodd bynnag, mae'r amseriadau ar gyfer y diwygiadau ehangach hyn yn golygu na fyddwn yn debygol o weld eu mantais am gryn amser. Rydym yn gwybod fod problemau gyda'n prosesau presennol sy'n achosi gofid i'r rhai sydd wedi eu cynnwys. Mae hyn yn cynnwys achosion yn cymryd yn rhy hir gydag oedi heb angen, pobl ddim yn derbyn y gefnogaeth maent eu hangen yn ystod ein harchwiliadau bob tro a phobl yn profi anawsterau wrth gyrchu'r wybodaeth y maent ei hangen.

Rydym wedi cytuno â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddwn yn ymgynghori ar nifer bychan of newidiadau i'n Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Rheolau Cyfansoddiad Pwyllgorau Ymarfer cyn i ddiwygiadau ehangach gymryd lle. Rydym wedi nodi'r newidiadau mwyaf buddiol a ellid eu gwneud oddi mewn i'n fframwaith cyfreithiol presennol, ac rydym yn ceisio barn ar y newidiadau hyn.

Mae nifer o'n cynigion yn adlewyrchu newidiadau mae rheoleiddwyr eraill fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) wedi eu gwneud i'w rheolau nhw. Mae tystiolaeth[2] wedi dangos, yn arbennig, fod cryfhau pwerau rheolau a phrosesau, wedi eu cyfuno â'r defnydd o gadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol, yn arwain at benderfyniadau cynt a mwy o achosion yn dod i derfyniad yn gynharach.

Pwerau i benodi cadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol

Ar hyn o bryd mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi dyletswydd i benodi aseswyr cyfreithiol sy'n darparu cyngor i'n Pwyllgorau Ymarfer, y Cofrestrydd neu'r Cyngor.[3] Mae ein rheolau'n datgan bod rhaid i asesydd cyfreithiol fod yn bresennol ym mhob cyfarfod rhagarweiniol a bod rhaid i ein paneli Pwyllgor gymryd cyngor "gan yr asesydd cyfreithiol" ar lawer o faterion gan gynnwys derbynioldeb y dystiolaeth, gohiriadau a seibiadau, ac a ddylid cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus neu'n breifat.

Mae cyngor cyfreithiol yn hanfodol i driniaeth deg o'n gwrandawiadau ond mae penodi asesydd cyfreithiol fel rôl ar wahân ac ychwanegol ym mhob gwrandawiad yn gostus. Mae rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys y CMC, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wedi cyflwyno cadeiryddion sy'n gymwys yn gyfreithiol. Pan benodir i gadeirio panel Pwyllgor, y cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol, yn hytrach nac asesydd cyfreithiol, sy'n cynghori'r panel er mwyn sicrhau bod yr achos yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith.

Pwerau i benodi cadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol

Rydym yn cynnig dilyn yr agwedd mae rheoleiddwyr eraill wedi ei chymryd trwy gyflwyno'r gallu i benodi cadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol. Mae hyn yn gyfle am fwy o hyblygrwydd, a fyddai hefyd yn lleihau costau.

Bydd y rheolau'n dynodi bydd gan gadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol yr un gofynion cymwysterau a phrofiad â'n haseswyr cyfreithiol. Oherwydd eu profiad o reoli achosion a sgiliau, mae gan gadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol fantais wrth ymdrin ag achosion sy'n cynnwys materion cyfreithiol cymhleth ac achosion sydd angen rheolaeth achosion ragweithiol fel y gosodir allan yn yr adran nesaf.

Nid yw'r newidiadau arfaethedig yn ein symud i ffwrdd o ddefnyddio aseswyr cyfreithiol yn gyfan gwbl. Ni fydd pob panel Pwyllgor yn cynnwys cadeirydd sydd wedi ei gymhwyso'n gyfreithiol a bydd y rheolau yn ei gwneud hi'n glir bod rhaid i'r panel dderbyn cyngor cyfreithiol gan asesydd cyfreithiol os nad yw'r cadeirydd wedi ei gymhwyso'n gyfreithiol.

Er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau'n parhau'n deg a thryloyw, bydd y rheolau yn mynnu caiff yr holl bartïon eu hysbysu o unrhyw gyngor cyfreithiol a roddir gan gadeirydd sydd wedi ei gymhwyso'n gyfreithiol, yn adlewyrchu'r gofynion am gyngor cyfreithiol a roddir gan asesydd cyfreithiol.[4]

? I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gyflwyno'r pŵer i benodi cadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol, a allant ddarparu cyngor cyfreithiol i'r panel y maent yn ei gadeirio?

Cynyddu effeithlonrwydd ac effeithioldeb dyfarniadau trwy bwerau rheoli achosion wedi eu cryfhau

Mae rheolaeth achosion dda yn hanfodol ar gyfer achosion panel effeithlon ac effeithiol. Pan fydd angen i gyfranogwyr rannu deunydd o flaen llaw, mae hynny'r rhoi cyfle i nodi dadleuon rhagarweiniol a chytuno ar faterion sy'n cael eu dadlau, fel gall panel y Pwyllgor ymdrin â'r achos yn gyflym. Mae hyn yn arbed adnoddau ac yn helpu sicrhau canlyniadau cyflymach gyda llai o amharu a phwysau i bawb sy'n cymryd rhan.

O dan ein deddfwriaeth gyfredol, gall ein Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer roi cyfarwyddiadau rheoli achosion am driniaeth achosion (sut maent yn cael eu paratoi a'u rhedeg) ac am y canlyniadau o fethu â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn. Mae'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth hefyd yn rhoi'r pŵer inni wneud rheolau sy'n caniatáu i Gadeirydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer roi'r cyfarwyddiadau hyn.

Fodd bynnag, mae ein rheolau cyfredol yn gyfyngedig oherwydd:

- Nid ydynt yn cadarnhau'r cyfarwyddiadau sy'n rhwymo paneli'r Pwyllgor yn y dyfodol
- Nid yw pŵer panel y Pwyllgor i wrthod derbyn tystiolaeth na gyflwynwyd yn unol â chyfarwyddyd, dim ond yn berthnasol i gyfarwyddiadau a roddwyd mewn cyfarfodydd rhagarweiniol[5]
- Nid ydynt ond yn caniatáu i'r Cadeirydd i roi cyfarwyddiadau mewn cyfarfod rhagarweiniol, a alwyd ym mhresenoldeb y partïon ac asesydd cyfreithiol.[6]

Rydym yn gwybod fod gwrandawiadau'n gallu bod yn ofidus i'r rhai sy'n cymryd rhan, a gall unrhyw oedi i'n proses achosi gofid pellach.[7]

Bydd ehangu a chryfhau ein pwerau i gyhoeddi cyfarwyddiadau sy'n rhwymo yn ein caniatáu i gynllunio proses rheoli achosion mwy effeithiol.

Bydd y pwerau newydd yn helpu paneli Pwyllgor sicrhau caiff achosion eu symud ymlaen mewn dull amserol. Bydd cyfarwyddiadau clir yn sicrhau bod y ddau barti yn deall beth y disgwylir ohonynt yn ogystal â chanlyniadau o beidio â chymryd rhan yn weithredol neu'n briodol.

Gellid lleihau amseroedd gwrandawiadau yn sylweddol a gall achosion redeg yn fwy llyfn lle mae'n ofynnol i'r partïon rannu manylion o'u hachos o flaen llaw (gan gynnwys y tystion y maent yn bwriadu dibynnu arnynt). Mae hyn yn helpu adnabod y ffeithiau a gytunir rhwng y partïon a'r rhai mae anghydfod. Mae hefyd yn helpu nodi unrhyw ddadleuon cyfreithiol rhagarweiniol fel y gellid eu datrys cyn y gwrandawiad.

Pwerau rheoli achosion wedi eu cryfhau

Rydym yn cynnig ehangu a chryfhau ein pwerau rheoli achosion yng nghyfnod dyfarnu ein proses drwy:

- Ganiatáu i gadeirydd sydd wedi ei gymhwyso'n gyfreithiol (os yw wedi ei gyflwyno) gyhoeddi cyfarwyddiadau rheoli achosion heb orfod trefnu cyfarfod rhagarweiniol yng ngŵydd y partïon
- Cadarnhau bod panel Pwyllgor sy'n cynnal cyfarfod rhagarweiniol yn gallu penderfynu dadleuon ar bwyntiau cyfreithiol neu ar dderbyn tystiolaeth cyn y gwrandawiad
- Cadarnhau bod holl gyfarwyddiadau rheoli achosion yn rhwymo'r holl bartïon, gan gynnwys yr NMC, mewn unrhyw wrandawiad diweddarach, oni bai fod y panel Pwyllgor yn ystyried fod newid sylweddol mewn amgylchiadau nad yw o fudd cyfiawnder i'r parti gael ei rwymo gan y cyfarwyddyd
- Ymestyn pŵer panel y Pwyllgor i wrthod derbyn tystiolaeth heb ei chyflwyno yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd (nid dim ond cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd mewn cyfarfodydd rhagarweiniol)
- Cadarnhau y gall panel y Pwyllgor hefyd dynnu casgliadau anffafriol o ddiffyg cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau.

Mae'r newidiadau rydym yn eu hamlinellu yn yr adran hon yn adlewyrchu diwygiadau tebyg a wnaeth y CMC i'w reolau ym mis Rhagfyr 2015. Rydym yn hyderus byddai'r gwelliannau hyn, ynghyd â chyflwyno cadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol, yn gwella'n sylweddol amseroldeb y broses a'r profiad i bawb sydd wedi eu cynnwys.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hagwedd arfaethedig o ehangu a chryfhau ein pwerau rheoli achosion?

Newidiadau i ofynion hysbysiad: hyblygrwydd ar gyfer rhannu deunydd, gwahodd sylwadau a rhoi rhybudd o gyfarfodydd a gwrandawiadau

Mae cyfathrebu clir, amserol a thryloyw yn hanfodol ar gyfer sicrhau tegwch a chaniatáu i bobl broffesiynol ar ein rhestr i ymgysylltu'n ystyrlon â'r broses Addasrwydd i Ymarfer. Mae hyn yn cynnwys darparu hysbysiadau ffurfiol pan symudir pryderon i gam gwahanol, pan drefnir gwrandawiadau neu gyfarfodydd, neu pan mae penderfyniadau wedi eu gwneud. Mae'r hysbysiadau hyn yn sicrhau bod cofrestreion yn deall natur y pryder, y dystiolaeth rydym wedi ei chasglu a'u bônt yn cael cyfle i ymateb cyn y cyrhaeddir at benderfyniad.

Mae ein rheolau cyfredol angen sawl hysbysiad gwahanol sydd rhaid caniatáu cofrestrai 28 diwrnod i ymateb gyda'u sylwadau, neu isafswm o 28 diwrnod o rybudd o unrhyw wrandawiad neu gyfarfod.

Gall y rheolau cyfredol am beth ddylai hysbysiadau eu cynnwys (eu fformat a'u cynnwys) a'r llinellau amser rydym yn rhwym iddynt weithiau achosi oedi penderfyniad cynnar achos. Mae hyn yn arbennig o broblematig pan fydd gwybodaeth gyswllt wedi dyddio, neu le nad yw cofrestreion yn ymgysylltu neu wedi gofyn yn benodol am ddim cyswllt pellach.

Mae problemau gyda sut a phryd rydym yn cyfathrebu â'r rhai sydd wedi eu cynnwys mewn achosion o Addasrwydd i Ymarfer wedi eu codi gan weithwyr nyrsio proffesiynol a gweithwyr bydwreigiaeth proffesiynol, y rhai sy'n eu cynrychioli ac eraill gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd sydd wedi codi pryderon a/neu wedi gweithredu fel tystion.[8]

Rydym yn ymwybodol gall derbyn hysbysiadau a cheisiadau ailadroddus o bosibl fod yn ddryslyd ac yn llethol, ac arwain at effaith negyddol ar les y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio. Rydym yn credu dylai'r gofynion a osodwyd allan yn y rheolau fod yn gymesur, o gofio byddwn hefyd yn cyfathrebu â'r cofrestrai ar achlysuron y tu allan i'r gofynion ffurfiol arnom i wneud, er mwyn sicrhau y cânt eu diweddaru trwy gydol y broses.

Rydym yn cynnig gwneud newidiadau i'r rheolau mewn pedwar maes, sef:

- Gallu anfon a rhannu dogfennau trwy gyfrif neu borth ar-lein lle mae'r cofrestrai wedi cytuno i dderbyn gwybodaeth yn electronig
- Mwy o hyblygrwydd ar gyfer gwahodd sylwadau
- Mwy o hyblygrwydd ar gyfer llinellau amser ar gyfer sylwadau
- Mwy o hyblygrwydd ar gyfer isafswm hysbysiad o gyfarfodydd neu wrandawiadau.

Nod y newidiadau hyn yw galluogi symud achosion ymlaen yn fwy effeithiol heb gyfaddawdu tegwch. Byddant hefyd yn gwella eglurder, hygyrchedd a diogelwch gwybodaeth.

Gallu anfon a rhannu gwybodaeth trwy gyfrif neu borth ar-lein

Rydym yn cyfathrebu â nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn ein proses Addasrwydd i Ymarfer trwy wahanol ddulliau, gan gynnwys y post, e-bost, a thros y ffôn. Mae'r cyfathrebiadau hyn yn cynnwys hysbysiadau ffurfiol mae rhaid i ni eu gyrru a diweddariadau anffurfiol a chefnogaeth. Mae llawer o sefydliadau Bellach yn darparu mynediad a gwybodaeth trwy gyfrifon a llwyfannau ar-lein ac rydym am foderneiddio ein hagwedd.

Rydym yn cynnig diwygio'r rheolau fel gallwn rannu gwybodaeth drwy gyfrif ar-lein. Fodd bynnag, bydd y rheolau hyn yn glir bydd hyn dim ond yn digwydd lle mae'r cofrestrai yn rhoi ei ganiatâd penodol, sydd, yn ein tyb ni, yn ddull diogelu pwysig.

Mae'r manteision o allu datgelu gwybodaeth ar-lein yn hytrach na trwy'r post neu e-bost wedi ei amgryptio yn cynnwys mwy o hygyrchedd ac eglurdeb, gan fydd pob gwybodaeth berthnasol ar gael mewn un lle ac wedi ei ddiogelu. Hoffem glywed barn defnyddwyr ein proses ar y cynnig hwn, yn ogystal ag unrhyw fewnwelediadau neu brofiadau o ddefnyddio prosesau tebyg, a allai lywio sut rydym yn dylunio'r cyfleuster hwn.

Mwy o hyblygrwydd ar gyfer gwahodd sylwadau

Ar hyn o bryd, unwaith rydym wedi penderfynu gall fod angen gweithredu rheoleiddio ac wedi gwneud atgyfeiriad i'n harchwilwyr achos, mae angen i ni (o dan reol 6A) anfon hysbysiad ffurfiol, darparu unrhyw ddogfennau nad ydym eisoes wedi eu rhannu a gwahodd sylwadau mewn ymateb oddi mewn i 28 diwrnod.

Ar ôl i ni gwblhau ein harchwiliadau ar gyfer yr archwilwyr achos, mae gennym ofyniad pellach (o dan reol 6B) i anfon y dystiolaeth rydym wedi ei chasglu yn yr archwiliad a sicrhau bod y cofrestrai yn gallu gwneud sylwadau ychwanegol oddi mewn i 28 diwrnod.

Mewn llawer o achosion byddwn eisoes wedi gofyn i'r cofrestrai i ymateb i'r pryderon cyn gwneud ein penderfyniad i'w symud ymlaen heibio sgrinio, sef y cam cyntaf yn ein proses. Byddwn hefyd wedi ysgrifennu at y cofrestrai i gadarnhau bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio (ein llythyr 'canlyniad sgrinio'). Pan fydd yr achos yn cael ei basio at aelod o'n tîm archwilio, byddwn yn anfon 'hysbysiad o atgyfeirio' ffurfiol at archwilwyr yr achos (rheol 6A). Yn y mwyafrif o achosion bydd sylwadau pellach yn y cam hwn yn helpu ffurfio'r archwiliad a chyflymu penderfyniadau.

Ar ddiwedd ein harchwiliad mae'n ofynnol arnom wahodd sylwadau eto a disgwyl 28 diwrnod cyn gall yr archwilwyr achos wneud unrhyw benderfyniad ar yr achos (rheol 6B(4)). O dan ein cynigion, bydd yn dal yn angenrheidiol i wahodd sylwadau cyn i'r archwilwyr achos benderfynu rhoi cyngor, rhoi rhybudd, argymell ymgymeriadau neu atgyfeirio achos i banel. Fodd bynnag, o dan y cynigion ni fyddai'r gofyniad hwn yn berthnasol lle mae'r archwilwyr achos yn fodlon bod ganddynt ddigon o wybodaeth yn barod i benderfynu nad oes angen gweithredu rheoleiddiol pellach.

Mwy o hyblygrwydd ar gyfer llinellau amser ar gyfer sylwadau

Rydym yn cynnig disodli'r cyfnod ymateb sefydlog o 28 diwrnod gyda gofyniad i roi dim llai na 28 diwrnod ar gyfer sylwadau. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd 28 diwrnod yn parhau i fod yn raddfa briodol ar gyfer ymateb ond byddwn yn datblygu arweiniad ar y ffactorau a allai olygu bod cyfnod hwy yn deg ac yn rhesymol yn yr amgylchiadau. Mae'r agwedd hon yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd ar gyfer anghenion achosion unigol, gan gymryd i ystyriaeth cymhlethdod yr achos, maint y deunydd, brys ac addasiadau rhesymol.

Mwy o hyblygrwydd ar gyfer isafswm hysbysiad o gyfarfodydd neu wrandawiadau

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol arnom roi isafswm o rybudd o 28 diwrnod o wrandawiad neu gyfarfod Addasrwydd i Ymarfer. Mae hyn pa un a oes gan y cofrestrai unrhyw wrthwynebiadau i wrandawiad neu gyfarfod cynharach i roi terfyn ar yr achos ai peidio. Mae hefyd yn annibynnol ar a yw wedi ei ddatgysylltu o'r broses, er enghraifft os yw'n treulio tymor yn y carchar.

Rydym yn cynnig cadw'r gofyniad safonol o roi rhybudd o 28 diwrnod ond cyflwyno hyblygrwydd i fyrhau hyn mewn rhai amgylchiadau. Byddai hyn lle mae'r cofrestrai'n cytuno i gyfnod byrrach, neu le cyfiawnheir cyfnod byrrach er lles y cyhoedd. Byddwn yn datblygu arweiniad i gefnogi penderfyniadau i ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn.

Mae'r tabl isod yn dangos sut byddai'r cynigion uchod yn newid ein gofynion rhybudd cyfredol.

Gofyniad cyfredol	Newid arfaethedig
Rhybudd o atgyfeirio i'n harchwilwyr achos (rheol 6A) Beth sydd ei angen: • Y Cofrestrydd i hysbysu'r cofrestrai o'r honiad ac atgyfeirio at yr archwilwyr achos • Mae rhaid i'r hysbysiad gyd-fynd ag unrhyw ddeunydd na ddatgelwyd yn flaenorol • Mae rhaid i'r hysbysiad wahodd sylwadau oddi mewn i 28 diwrnod.	Cadw'r ddyletswydd i: • Hysbysu'r cofrestrai o'r honiad a'r atgyfeiriad • Anfon unrhyw ddeunydd nad yw wedi ei ddatgelu'n flaenorol • Gwahodd sylwadau. Diwygio'r cyfnod a ragnodwyd ar gyfer sylwadau i'r dyddiad a nodwyd yn yr hysbysiad, sydd rhaid bod dim llai na 28 diwrnod.
Canlyniad archwiliad i honiadau o Addasrwydd i Ymarfer (rheol 6B(4)) Yn gofyn i'r Cofrestrydd, cyn unrhyw benderfyniad gan archwiliwr achos, i: • Anfon unrhyw ddeunydd a gafwyd yn ystod yr archwiliad • Gwahodd sylwadau oddi mewn i 28 dfwrw ymlaen I iwrnod.	Rhoi rheol yn ei lle (wedi ei gosod i mewn i reol 6C) sy'n atal yr archwilwyr achos rhag rhoi cyngor, rhoi rhybudd, argymell ymgymeriad neu atgyfeirio achos i banel, oni bai eu bod yn fodlon bod y Cofrestrydd wedi: • Ei ddarparu â deunydd a gafwyd yn ystod yr archwiliad • Ei wahodd i wneud sylwadau oddi mewn i gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod o'r amser yr anfonwyd y deunydd • Ei hysbysu fod ar ôl y dyddiad dod i ben, gall yr archwilwyr achos fwrw ymlaen i wneud penderfyniad yn absenoldeb sylwadau.

Gofyniad cyfredol	Newid arfaethedig
Archwilydd achos i ateb y penderfyniad (rheol 6C(2) a (3)) Mae rhaid i archwilwyr achos hysbysu'r cofrestrai (a'r person sy'n gwneud yr honiad, os oes un) o'u penderfyniad a'r rhesymau drosto.	Dim newid
Hysbysiad o atgyfeiriad i'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (rheol 9) Mae rhaid i'r Pwyllgor: • Hysbysu'r cofrestrai pan fyddant wedi derbyn atgyfeiriad • Gwahodd sylwadau oddi mewn i 28 diwrnod • Angen gwybodaeth gan y cofrestrai oddi mewn i 28 diwrnod, gan gynnwys cadarnhad o a fyddai'r cofrestrai'n hoffi gwrandawiad (yn hytrach na chyfarfod).	Dim newid

Gofyniad cyfredol

Gwrandawiad (rheol 11) **neu gyfarfod** (rheol 11A) **Addasrwydd i Ymarfer**

Pan fydd cofrestrai wedi gofyn am wrandawiad neu mae'r Pwyllgor yn penderfynu bod gwrandawiad yn briodol, mae'n ofynnol ar y Pwyllgor i anfon hysbysiad, dim hwyrach na 28 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad.

Mae rhaid i hysbysiad o wrandawiad neu gyfarfod:

- Gynnwys honiad (neu gopi o'r dileu oddi ar y gofrestr os yw'n wrandawiad adfer)
- Bod gyda chopïau unrhyw ddogfennau i gefnogi na ddatgelwyd yn flaenorol
- Angen ymateb oddi mewn i 14 diwrnod a fydd y cofrestrai'n bresennol ac a fydd yn cael ei gynrychioli.

Mae rhaid i hysbysiad o wrandawiad:

- Gadarnhau dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad
- Cadarnhau'r hawl i fynychu a chael cynrychiolaeth, yr hawl i ddwyn tystiolaeth, yr hawl i alw tystion a chroesholi tystion a elwir gan eraill
- Cadarnhau'r pŵer i wneud gorchymyn dros dro
- Cadarnhau'r camau gweithredu ar gael i'r Pwyllgor o dan erthygl 29
- Gwahodd cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw addefiadau, dim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl cyflwyno
- Lle mae'r honiad yn ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol yn unig, gwahodd eu dymuniad a ddylid ei gynnal yn gyhoeddus.

Newid arfaethedig

Cadw'r holl ofynion hysbysu ond caniatáu i'r hysbysiad gael ei anfon llai na 28 diwrnod cyn y gwrandawiad neu'r cyfnod lle:

- Mae'r cofrestrai wedi cytuno i gyfnod byrrach, neu
- Mae'r Cofrestrydd neu'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn ystyried y cyfiawnheir cyfnod byrrach er lles y cyhoedd.

Ymhle anfonir yr hysbysiad llai na 28 diwrnod cyn y gwrandawiad neu'r cyfarfod, bydd y cofrestrai'n derbyn cyfnod byrrach i gadarnhau a fydd yn mynychu (gwrandawiadau yn unig) ac a fydd yn gwneud unrhyw addefiadau.

Rhowch atebion i'r cwestiynau rydych yn teimlo sy'n berthnasol i'ch maes diddordeb:

? I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n newid arfaethedig i ganiatáu i ni rannu dogfennau trwy gyfrif neu borth ar-lein ymhle mae'r cofrestrai wedi cytuno i hyn?

? I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddiwygio'r rheolau fel nad yw'n ofyniad bellach i wahodd sylwadau ar ddiwedd y broses os nid oes angen unrhyw weithgaredd rheoleiddiol? (Bydd y cofrestrai'n parhau i gael y cyfle i weld y deunydd a gwneud sylwadau mewn ateb, cyn y gall yr archwilwyr achos atgyfeirio'r achos at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, argymell ymrwymiad, rhoi rhybudd neu roi cyngor.)

? I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddisodli'r gofyniad sefydlog i ymateb oddi mewn i 28 diwrnod gyda ffrâm amser mwy hyblyg o 28 diwrnod o leiaf?

? I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddarparu hyblygrwydd i leihau'r cyfnod o 28 diwrnod o rybudd ar gyfer cyfarfodydd neu wrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer mewn rhai amgylchiadau?

Cefnogi tystion bregus i ddarparu tystiolaeth

Rydym yn gwybod fod rhoi tystiolaeth mewn gwrandawiad yn gallu bod yn brofiad brawychus ac rydym am i bawb gael y cyfle i roi eu tystiolaeth yn effeithiol.[9] [10] Mae hyn yn cynnwys y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio sydd â'i achos yn cael ei ystyried, os yw'n dewis rhoi tystiolaeth. Gall cefnogaeth effeithiol i dystion wella ansawdd a ddarperir a all, yn ei thro, ein helpu i ddod i gasgliadau yn gynharach, gan wella'r profiad i bawb sydd wedi ei gynnwys.

Mae ein rheolau cyfredol yn caniatáu i'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer fabwysiadu mesurau o'r fath y mae'n eu hystyried sydd eu hangen i'w alluogi i dderbyn tystiolaeth gan "dyst bregus". Mae'r rheolau'n darparu rhestr anghynhwysfawr o'r mesurau y gellid eu mabwysiadu, o'r defnydd o ddolenni fideo, tystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw, a'r defnydd o gyfieithwyr ar y pryd. Fodd bynnag, mae'r rheolau'n diffinio tyst bregus mewn termau cul ac yn defnyddio iaith sydd wedi dyddio, er enghraifft yn cyfeirio at y rhai ag "anhwylder meddwl" neu "nam sylweddol mewn perthynas â deallusrwydd neu weithredu cymdeithasol".

Nid yw hyn yn iaith yr hoffem ei defnyddio ac nid yw'n adlewyrchu nac yn diffinio bregusderau gall pobl eu hwynebu'n gywir. Mae ymchwil diweddar hefyd yn awgrymu sut mae'r term 'bregusrwydd' yn cael ei ddefnyddio i greu, neu mewn gwirionedd, waethygu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli. Mae'n gofyn am symudiad mewn sut caiff bregusrwydd ei fframio ac yn awgrymu dylai rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol symud tuag at agwedd sy'n rhagweld ffactorau sefyllfaol neu gyd-destunol (er enghraifft, gall achosion o fregusrwydd godi o honiadau cyn y gwrandawiad neu o'r broses ei hun). Mae'r ymchwil yn dyfynnu o'r ymgynghoriad ar reolau newydd gan y CMC, "osgoi'r angen i labelu tystion mewn ffyrdd problematig ac yn rhoi mwy o gyfle i baneli Addasrwydd i Ymarfer i adnabod ac ymateb i wahanol fathau o fregusrwydd".[11]

Mae gallu pobl i roi tystiolaeth yn gallu cael ei effeithio gan amgylchiadau oddi mewn i'w bywyd personol. Mae'n gyffredin i weithiwyr nyrsio proffesiynol a gweithiwr bydwreigiaeth proffesiynol sy'n cael eu hatgyfeirio atom fod yn profi digwyddiadau bywyd anodd a allai fod yr achos am y pryder am eu hymarfer. Gall y rhain gynnwys caethiwed, iechyd corfforol neu feddyliol gwael, tor-berthynas, neu golli swydd. Gallant gael eu trawmateiddio'n fwy trwy orfod ail-fyw'r digwyddiadau hyn yn ystod y broses.

Mae'r newidiadau rydym ni eisiau eu gwneud yn adlewyrchu'r ymarfer mewn awdurdodaethau troseddol, teuluol a chyflogaeth, gan sicrhau y gallwn gefnogi cyfranogiad ystod ehangach o bobl na'r rhai sy'n cael eu cynnwys gan y geiriad presennol.

Cefnogi tystion bregus i ddarparu tystiolaeth

Dymunwn ddarparu cefnogaeth i ystod ehangach o dystion. Er mwyn gwneud yn siŵr gall y Pwyllgor gefnogi tystion yn effeithiol a gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion (yn unol â'i dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth cydraddoldebau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon) rydym yn cynnig diwygio'r rheolau, gan ddisodli'r diffiniad cul a therminoleg sydd wedi dyddio a ddefnyddir ar hyn o bryd agwneud pwerau'r Pwyllgor yn fwy eglur, gan eu caniatáu i adnabod ac ymateb yn well i wahanol fathau o fregusrwydd. Bydd y rheolau diwygiedig yn:

- Caniatáu i'r Pwyllgor fabwysiadu addasiadau y mae'n eu hystyried sydd eu hangen i'w alluogi i dderbyn tystiolaeth gan dystion bregus, gan gynnal y ddyletswydd i sicrhau bod achosion yn deg ac yn gyfiawn
- Tynnu'r diffiniad cul o dystion bregus a rhoi yn ei le pŵer i wneud asesiad holistaidd ac yn canolbwyntio ar y person, sy'n rhagweithiol yn ystyried llesiant a lles tystion a phob amgylchiad o'r achos.

Rydym eisiau sicrhau cydbwysedd rhwng cefnogi tystion i roi tystiolaeth glir a gwrthrychol a sicrhau bod hawl y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio i wrandawiad teg yn cael ei chynnal.

Mae'r newidiadau rydym eisiau eu gwneud yn adlewyrchu'r agwedd mae'r CMC wedi ei gosod allan yn rheol 43 o'r Rheolau Addasrwydd i Ymarfer ar gyfer Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddyg.[12]

I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r newid arfaethedig i ganiatáu i'n Pwyllgorau gefnogi tystion bregus yn well?

Adolygu drafftio diwygiadau'r rheolau

Yn yr adran hon rydym yn ceisio barn ar eiriad penodol y newidiadau i'r rheolau fel yr ydym wedi eu drafftio, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n effeithiol bwriad y polisi rydym wedi ei osod allan ym mhob un o adrannau'r ddogfen hon.

Gellir dod o hyd i Ddiwygiad y rheolau drafft ochr yn ochr á'r ymgynghoriad hwn yma. Rydym hefyd wedi creu dogfen ar wahân, a elwir yn atodlen Keeling, sy'n dangos sut bydd y rheolau a effeithir yn edrych pe bai'r diwygiadau yn cael eu gwneud.

Gallwch ddewis hepgor yr adran hon os nad ydych yn dymuno rhoi adborth ar eiriad penodol y rheolau.

Newidiadau arfaethedig:

- Pwerau i benodi cadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol
- Pwerau rheoli achosion wedi eu cryfhau
- Gallu anfon a rhannu dogfennau trwy gyfrif neu borth ar-lein
- Mwy o hyblygrwydd ar gyfer gwahodd sylwadau
- Mwy o hyblygrwydd ar gyfer llinellau amser ar gyfer sylwadau
- Mwy o hyblygrwydd ar gyfer isafswm hysbysiad o wrandawiadau neu gyfarfodydd
- Cefnogi tystion bregus i ddarparu tystiolaeth.

Ar gyfer pob newid, dywedwch pa mor effeithiol neu aneffeithiol mae'r drafftio'n adlewyrchu'r polisi fel y mae wedi ei osod allan yn y cwestiynau blaenorol?

Datblygu arweiniad i gefnogi'r newidiadau rydym yn eu gwneud

Rydym yn gosod allan sut rydym yn gwneud penderfyniadau mewn arweiniad sydd ar gael ar-lein.

I gefnogi'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn datblygu arweiniad i gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, y Pwyllgorau, pobl broffesiynol ar ein cofrestr a'r cyhoedd. Cyn i ni wneud hyn, bydd angen i ni ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'n pwerau newydd a osodir allan yn y rheolau, a threfnu newidiadau yn ofalus.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddatblygiad yr arweiniad hwn a byddwn yn ei gyhoeddi pan fydd wedi ei gytuno.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae gennym ddyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol. Mae hyn yn cael ei adnabod fel 'dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus'.

Rydym yn credu bydd y newidiadau rydym wedi eu gosod allan yn y ddogfen hon yn cefnogi ein gwaith parhaus i wella canlyniadau i bobl â nodweddion gwarchodedig, y mae rhai ohonynt rydym yn gwybod wedi eu gorgynrychioli yn y prosesau addasrwydd i ymarfer. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i gasglu tystiolaeth i'n helpu asesu'r effaith gydraddoldeb ar ein cynigion, y byddwn yn eu cyhoeddi gyda'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, rydym wedi gosod allan isod ein barn gryno gychwynnol o effeithiau posibl, o'n hymgysylltiad rhagarweiniol.

- Nod ein cynigion ynghylch defnyddio panel o gadeiryddion sydd wedi eu cymhwyso'n gyfreithiol a phwerau rheoli achos wedi eu cryfhau yw sicrhau bod achosion yn rhedeg yn fwy llyfn a lleihau hyd ein gwrandawiadau. Bydd hyn helpu lleihau'r staen a brofir a'r amser mae cofrestreion yn rhan o'n prosesau, yn arbennig lle nad oes angen gweithredu. Byddant yn arbennig o fudd i bobl â chyflyrau iechyd neu wendidau eraill. Rydym yn gobeithio y byddant hefyd yn gwella'r profiad i gofrestreion nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ffurfiol.
- Bydd ein cynigion ar gyfer graddfeydd amser ar gyfer sylwadau yn dod â gwelliannau i bobl a allai ei chanfod hi'n anodd ymateb oddi mewn i gyfnod o 28 diwrnod.
- Bydd newid sut rydym yn cefnogi tystion trwy gyfnewid y diffiniad cul a therminoleg sydd wedi dyddio a ddefnyddir ar hyn o bryd yn caniatáu i baneli adnabod a rhagweld yn well yr addasiadau allai fod eu hangen ar bobl ag ystod helaethach o wendidau ac anableddau.

Byddwn yn defnyddio ymatebion i ddiweddaru'r asesiad rydym wedi ei gynnal a gall adborth achosi i ni newid ein cynigion neu roi mewn lle gweithredoedd lliniaru. Gallai lliniaru o'r fath, er enghraifft, ganolbwyntio ar sut rydym yn cynllunio, dylunio a rhoi ar waith prosesau newydd a datblygu arweiniad at ddefnydd y pwerau rheoli achos newydd. Byddwn eisiau sicrhau bod gan bob cofrestrai, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli, ddisgwyliadau ac arweiniad clir ar sut mae ein pwerau newydd yn cael eu defnyddio a sut gallant lynu wrth ac elwa o'r newidiadau. Gallwn hefyd rhoi mewn lle monitro penodol gweithrediad ac effaith gynnar ein proses ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

?

Wrth feddwl am y newidiadau arfaethedig i reolau Addasrwydd i Ymarfer, a allwch chi nodi unrhyw effeithiau posibl – cadarnhaol neu negyddol – ar rai unigolion yn fwy nag eraill yn seiliedig ar eu nodweddion gwarchodedig?

Drwy sôn am nodweddion gwarchodedig rydym yn golygu, oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Y Gymraeg

Fel y rheoleiddiwr ar gyfer nyrsys a bydwragedd ar draws y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr[13] rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod ein penderfyniadau'n ystyried yr effeithiau, os yn berthnasol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac nid i drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Safonau a gyhoeddir gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn gofyn i ni adnabod ac ystyried effeithiau ein cynigion, fel yr osodwyd allan yn y ddogfen hon, ar y defnydd o'r Gymraeg, ac i gyflwyno unrhyw fesurau sydd angen i un ai liniaru unrhyw effaith negyddol yn ogystal ag atgyfnerthu unrhyw effaith gadarnhaol. Gan dynnu ar yr ymatebion i'r cwestiynau isod, byddwn yn tynnu sylw at unrhyw effeithiau perthnasol, ac ein hymateb arfaethedig i'r rhain, oddi mewn i'n hadroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn.

?

A allwch chi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y gallai'r newidiadau arfaethedig eu cael ar yr iaith Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg?

A allai'r cynigion gael eu hadolygu mewn unrhyw ffordd i gynyddu cyfleoedd i bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg a helpu nid i'w thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sut i ymateb

Rydym yn croesawu adborth gan unrhyw unigolyn a effeithir arno gan y newidiadau arfaethedig a osodwyd allan yn yr ymgynghoriad hwn. Rydym hefyd yn gofyn i chi rannu rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi'ch hun fel y gallwn ni ddeall beth mae gwahanol grwpiau yn ei ddweud am ein cynigion. Ni fydd eich sylwadau yn cael eu priodoli i chi.

Gallwch gael mynediad at ein harolwg ar-lein yma. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r Gorchymyn Diwygio drafft (a fyddai'n diwygio'r rheolau presennol ac amserlen Keeling) trwy'r ddolen hon. Os na allwch gyflwyno'ch ymateb trwy ddefnyddio ein harolwg ar-lein, cysylltwch â ni yn consultations@nmc-uk.org am ffurf amgen.

Tra gall pob ymatebydd barhau'n anhysbys, os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn gofyn i chi am eich enw ac enw'r sefydliad. Byddwn hefyd yn gofyn a ydych yn fodlon i'ch sylwadau gael eu priodoli i'ch sefydliad wrth adrodd.

Rhestr termau

Asesydd cyfreithiol

Mae asesydd cyfreithiol yn gyfreithiwr cymwys gyda'r rôl o gynghori'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r broses gyfreithiol gywir, ond nid yw'n cael ei gynnwys yn broses o wneud y penderfyniad.

Casgliadau anffafriol

Casgliad anffafriol yw casgliad negyddol a ellid dod ato, er enghraifft lle mae cofrestrai yn dewis peidio â rhoi tystiolaeth neu ddarparu dogfennau perthnasol. Mewn amgylchiad o'r fath, gallai'r Pwyllgor gasglu bod hyn yn golygu nad oes gan y cofrestrai eglurhad da am ei ymddygiad honedig neu ymateb rhesymol i'r achos yn ei erbyn.

Cyfarfod rhagarweiniol

Gall cyfarfodydd rhagarweiniol eu cynnal gan banel neu Gadeirydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Fe'u trefnir i ddatrys problemau cyn y gwrandawiad neu gyfarfod ymhle fydd y Pwyllgor yn dod i benderfyniad ar yr achos o addasrwydd i ymarfer.

Cyfarwyddiadau rheoli achos

Mae cyfarwyddiadau rheoli achos yn benderfyniadau am sut caiff achos ei rhedeg ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau mae rhaid i'r NMC a'r cofrestrai eu dilyn wrth baratoi am y gwrandawiad. Gallant fod yn gyfarwyddiadau safonol (a gânt eu cyhoeddi ar gyfer pob achos neu fathau arbennig o achos) neu'n benodol i'r achos.

Pan fydd cyfarwyddiadau "yn rhwymo" Pwyllgor yn y dyfodol mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Pwyllgor ddilyn a chynnal y cyfarwyddyd.

Deddfwriaeth cydraddoldebau Gogledd Iwerddon

Mae llawer darn o ddeddfwriaeth cydraddoldebau yng Ngogledd Iwerddon, fel y rhestrwyd gan Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon (ECNI). Gweler yma: ECNI – Y Gyfraith, Deddfwriaeth Gydraddoldeb, Comisiwn Cydraddoldeb, Gogledd Iwerddon .

Derbyn tystiolaeth

Derbyn tystiolaeth yw caniatáu iddi gael ei hystyried wrth wneud penderfyniad. Osy w Pwyllgor yn penderfynu ni ellir derbyn tystiolaeth, mae hyn yn golygu na fyddant yn ei hystyried pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad.

Ein deddfwriaeth

Ein Gorchymyn a'n rheolau. Gweler yma:
Ein gorchymyn a'n rheolau – Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Hysbysiad o wrandawiadau a chyfarfodydd

Mae gofyn i ni hysbysu cofrestrai o unrhyw wrandawiad neu gyfarfod lle bydd panel y Pwyllgor yn dod i benderfyniad ar ei achos Addasrwydd i Ymarfer.

Newid sylweddol mewn amgylchiadau

Mae newid sylweddol mewn amgylchiadau'n cyfeirio at newid arwyddocaol ers y gwnaethpwyd penderfyniad neu gyfeiriad, a byddai'r amgylchiadau sydd wedi newid wedi gwneud gwahaniaeth i'r penderfyniad neu'r cyfeiriad.

Paneli Pwyllgor Ymarfer (gwrandawiadau a chyfarfodydd)

Mae gennym ddau Bwyllgor Ymarfer yn ein proses addasrwydd i ymarfer:

- Y Pwyllgor Archwilio
- Y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

Mae ein Pwyllgorau Ymarfer yn cynnwys pobl broffesiynol ar ein cofrestr a phobl leyg y tu allan i'r proffesiynau hynny.

Deuir i benderfyniadau gan banel o dri aelod o'r Pwyllgor, gydag un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Gall y panel ddod i'w penderfyniad mewn cyfarfod neu mewn gwrandawiad.

Gweler yma:
Cyfarfodydd a gwrandawiadau – Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Rheolau

Mae rheolau'n ddeddfwriaeth eilaidd sy'n gosod allan manylion am ein prosesau rheoleiddiol, a chânt eu gwneud trwy ddefnyddio pwerau a osodwyd allan yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae rhaid i'n rheolau gael eu cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor a'u gosod a'u cyflwyno yn Senedd y DU cyn iddynt ddod i rym.

Sylwadau

Pan fyddwn yn gwahodd y cofrestrai i wneud sylwadau, dyma ei gyfle i ymateb i'r pryderon rydym yn eu hystyried ynglŷn â'i addasrwydd i ymarfer ac unrhyw dystiolaeth rydym wedi ei chasglu.

Ôl-nodiadau

1 Mae'r rheolau perthnasol ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) 2004 a'r Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Pwyllgorau Ymarfer) (Cyfansoddiad) 2008 (fel y'u diwygiwyd): https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/legislation/legislation-updated/fitness-to-practise-rules-2004-consolidated-text-31-august-2020.pdf a Rheolau Pwyllgorau Ymarfer a Chyfansoddiad.

2 Medical Professionals Tribunal Service 'Report to Parliament 2018', 8: MPTS Report to Parliament 2018.

3 Erthygl 34 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

4 Mae manylion ar sut mae aseswyr cyfreithiol yn rhoi cyngor wedi ei osod allan yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Aseswyr Cyfreithiol) Gorchymyn y Cyngor 2004 (OS 2004/1763) (fel y'i diwygiwyd): https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/legislation/nursing-and-midwifery-order-2001-legal-assessors-order-of-council-2004.pdf.

5 Rheol 31(8) o Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) 2004.

6 Rheol 18 o Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) 2004.

7 Ryan-Blackwell G & Wallace L (2024) Witness to harm; Holding to account: What is the importance of information for members of the public who give evidence and may be witness in a regulatory hearing of a health or care professional? Health Expectations 27: e14168 https://doi.org/10.1111/hex.14168.

8 Wallace L (2024) Customer care, personalised care - it's just not good enough. More compassion is needed in complaints-handling. PSA Blog 4 April 2024.

9 NMC (2022) Ambitious for Change: Phase 2 Report, Nursing and Midwifery Council, London.

10 Finn, G., P. Crampton, A. Kehoe, et al (2022) Experiences of GDC fitness to practise participants 2015 – 2021: A realist study General Dental Council, London. Finn, 2022; Maben 2020, Worsley, 2016; RCN 2024.

11 Sorbie A, Garippa L (2024) '(Re)constructing 'witness vulnerability': An analysis of the legal and policy frameworks of the statutory regulators of social work and social care professions in the UK', The British Journal of Social Work'. Vol 55, Issue 2, March 2025, pages 744-762.

12 Rheolau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (Addasrwydd i Ymarfer) (Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddyg) 2024 - 2.4 Cyngor Meddygol Cyffredinol (addasrwydd i ymarfer) (cymdeithion anaesthesia a meddyg) 2024.

13 Mae llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cymdeithion nyrsio yn rôl a reoleiddir yng Nghymru, gyda'r NMC fel y rheoleiddiwr. Er mwyn gwneud hyn bydd rhaid gwneud diwygiad i'n deddfwriaeth i'n gwneud ni'r rheoleiddiwr. Ar amser cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn mae llywodraeth y DU yn ystyried y ffordd orau o wneud hyn.

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcuk
@nmcnews
The Nursing and Midwifery Council